COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANGYNDEYRN A GYNHALIWYD AR 2ail o FEDI 2019 YN NEUADD YR EGLWYS,LLANGYNDEYRNAM 7.00 O'R GLOCH
Presennol: Ian Evans (yn y gadair),Carol Williams,Tyssul Evans,Geraint Rosser,Tracey James,Geoff Hewitt a'r Clerc,Glyndwr Prideaux

Ymddiheuriadau: Linda Williams,Margaret Rees,Aled Williams,Alan Lewis,Heddwyn Jones a Meic Bowen.

2258 Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd.Nodwyd gyda thristwch am dostrwydd Margaret, gwraig Heddwyn a dymunwyd adferiad iechyd buan iddi.

2259 Cofnodion
Derbyniwyd a llofnodwyd cofnodion y Cyfarfod misol diwethaf ar 01/07/2019 fel rhai cywir.

2260 Materion yn codi.
Tud 1. Cofnod Rhif 2241 - Clwb Cymdeithasol Carwe. - Penderfynwyd gofyn am ddiweddariad oddiwrth Adran Cynllunio'r Cyngor Sir gan fod hwn nawr yn fater o frys.
Tud 1. Cofnod Rhif 2241– Swyddfa Bost Carwe – Cysylltir eto gyda'r Swyddfa Bost fel mater o frys gan fod y sefyllfa yn gwaethygu.
Tud 1. Cofnod Rhif 2241 – Cwrs Ffoslas – Arhoswn am sylw gan y Cyngor Sir.
Tud 2. Cofnod Rhif 2256 - Llwybr i Gwm Lewis - Mae'r gwaith trashio wedi dechrau.

Gohebiaeth

Ceisiadau am grant/cyfraniadau ariannol:-

Cynghorwr Tracey James yn datgan diddordeb,arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

2261 Cylch Meithrin Carwe - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £500.

Tracey yn ail ymuno a'r cyfarfod.

2262 Moreia Meinciau – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £600.

2263 Neuadd Meinciau- Penderfynwyd danfon cyfraniad o £800.

2264 Meinciau Short Mat Bowls Club – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £600.

2265 Pwyllgor Lles Llangyndeyrn – Parc Llangyndeyrn – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £700.

Gohebiaeth gyffredinol :-

2266 Maer Caerfyrddin - Diwrnod Heddwch Rhyngwladol - Nodwyd y Llythyr.

2267 Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Cymru - Arolwg o Drefniadau Etholiadol Sir Gaerfyrddin - Adroddiad Argymhellion Terfynol - Nodwyd creu Ward newydd gyda Llandyfaelog a dau aelod.

Ceisiadau Cynllunio

2268 a) Cais Rhif W/39189 - Karen Latchford - Tŷ'r Castell,Crwbin - Dim Gwrthwynebiad.
b) Cais Rhif W/39298 – Briony Uprichard– Fferm Pantyrhin,Meinciau – 'Manege" – Dim Gwrthwynebiad.
c) Cais Rhif W/39143 – Mr & Mrs P Powell – 4,Heol Mansant,Pontiets – Byngalo – Dim Gwrthwynebiad.
Ch) Cais Rhif W/39359 – Northhold Group – Garej,13,Heol y Meinciau,Pontiets - Adnewyddiad – Dim Gwrthwynebiad .
d) Cau Ffordd Dros Dro – Heol Mansant,Pontiets – Dim Gwrthwynebiad.

dd) Cwar Blaenyfan - Glanhau Gwastraff - Aros am fanylion pellach.

Adroddiad o Daliadau a Threuliau'r Mis

2269 Derbyniwyd adroddiad ariannol Mis Gorffennaf ac Awst 2019.Derbyniwyd argymhelliad y Clerc ein bod yn trosglwyddo gweddillion rhan o'r gyllideb sydd heb eu gwario i'r lein gyffredinol.

Adroddiad Ariannol Misol

2270 Penderfynwyd bod y canlynol i'w dalu :-

a) Cyflog y Clerc - £422.81 (Mis Gorffennaf)
b) Ffon Tŷ'r Clerc - £25.00 (Mis Gorffennaf)
c) Cydnabyddiaeth y Syrfëwr - £110.00 (Mis Gorffennaf)
ch) HMRC (Treth)- £84.60 (Mis Gorffennaf)
d) Ffon Symudol y Cyngor - £9.98 (Mis Gorffennaf)
dd) BT – Ffon y Swyddfa - £50.83 (Mis Gorffennaf)
e) Paula Clarke – Glanhau Toiledau'r Meinciau (Mis Gorffennaf)- £183.00
f) Marcus Dininno - Torri Gwair yng Ngharwe - £50.00
ff) EDF – Trydan yn Nhoiledau'r Meinciau (Mis Gorffennaf)-£37.42
g) Inc i'r Llungopïwr - £59.28
ng) Mark Rees – Scalps - £472.82
h) Cyflog y Clerc - £422.81 (Mis Awst)
i) Ffon Tŷ'r Clerc - £25.00 (Mis Awst)
l) Cydnabyddiaeth y Syrfëwr - £110.00 (Mis Awst)
m) HMRC (Treth)- £84.60 (Mis Awst)
n) Ffon Symudol y Cyngor - £9.98 (Mis Awst)
o) BT – Ffon y Swyddfa - £50.64 (Mis Awst)
p) Paula Clarke – Glanhau Toiledau'r Meinciau (Mis Awst)- £183.34
ph) Marcus Dininno - Torri Gwair yng Ngharwe - £50.00
r) EDF – Trydan yn Nhoiledau'r Meinciau (Mis Awst)-£37.10
rh) Dwr Cymru – Toiledau'r Meinciau – £68.24
s) Diogelwch y Cyfrifiadur - £19.99
t) Ffon Symudol Newydd - £29.99
th) Llyfr Cyfrifon - £74.40
u) Atgyweirio Sedd ym Mrynseilo,Carwe - £80.00

2271 Safle Ffoslas - Derbyniwyd adroddiad gan y Clerc o'r Cyfarfod Safle a gynhaliwyd yn Ffoslas ynglŷn â newid cwrs Llwybr Cyhoeddus. Nodwyd gyda chryn gonsyrn yr hysbysiad i ehangu'r safle gan greu'r argraff bod y safle yn dod o dan yr enw 'Trimsaran" . Awdurdodwyd y Clerc I gysylltu gyda Chwmni Persimmon ynglŷn â'r mater.

Materion Cynghorwyr

2272 - Ian - Cais gan Rieni Ysgol Gwynfryn am offer ychwanegol ym Marc Gwynfryn

Cyfarfod nesaf:- 7fed o Hydref 2019 yn Festri Moreia Meinciau am 7.00 o'r gloch.

(Cyfarfod Cynllunio am 6.45 o'r gloch)

Llofnodwyd……. CADEIRYDD

Dyddiad……